**CYNGOR**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10am Ddydd Iau 28 Tachwedd 2024 yn Neuadd Vivian, Canolfan Dylan Thomas, Abertawe

**Aelodau Cyngor PCYDDS a PC:**
Emlyn Dole (Cadeirydd)
Yr Athro Elwen Evans CB (Is-Ganghellor)
John Edge
Timothy Llewelyn
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry

**Sylwedydd:** Katrin Shaw

**Yn bresennol:**
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Sarah Clark, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chlerc y Cynghorau
Dr Andrew Cornish, Pennaeth, Coleg Sir Gâr
Peter Mannion, Prif Swyddog Gweithredu
Jane O'Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

**Aelodau Cyngor PC:**
Dr Stuart Robb
Iwan Thomas

**Aelodau Cyngor PCYDDS:**
Natalie Beard
Dr Tracy Cruickshank
Maria Dinu
Yr Athro Kyle Erickson
Dr Deborah Hughes
Uzo Iwobi
Rowland Jones
Geraint Roberts

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 24.69<br>Ymddiheuriadau | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Geraint Evans, Deris Williams, Emlyn Schiavone, Yr Athro Mirjam Plantinga, Debra Williams. |
| 24.70<br>Datgan Buddiannau | DERBYNIODD y Cyngor y Datganiadau o Fuddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (JCO284).<br><br>Gwnaeth y Clerc atgoffa'r aelodau i nodi unrhyw eitemau ar yr agenda y byddai'r buddiannau a ddatganwyd ganddynt yn debygol o ymwneud â nhw. |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| | |
| 24.71<br>Adroddiad y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau adroddiad y Cadeirydd (JCO285).<br><br>Adroddodd y Cadeirydd ar apwyntiad Katrin Shaw fel aelod annibynnol o Gyngor PCYDDS a'i chroesawu i'r cyfarfod fel sylwedydd. Bydd hi'n ymuno â'r Cyngor ar 1 Ionawr 2025. Yn ogystal, llongyfarchodd Dr Tracy Cruickshank sydd wedi'i phenodi'n Ddeon yr Athrofa Dysgu Canol Dinas (Campws Llundain).<br><br>Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Seremonïau Graddio diweddar a llongyfarchodd bawb a gymerodd ran. |
| 24.72<br>Adroddiad yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad ar lafar gan yr Is-Ganghellor.<br><br>Diweddarodd yr Is-Ganghellor yr aelodau ar sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r Sector AU yng Nghymru yn ehangach, gan gynnwys effaith y cynnydd sydd ar ddod mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Adroddodd ar y trafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd ar ran cyflwyo rhaglenni'r Dyniaethau ar gampws Llambed a'r gwaith ehangach gyda rhanddeiliaid allanol i lunio dyfodol addysg yn y rhanbarth.<br><br>Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at ymddeoliad Deon Gweithredol IICL (Campws Llundain) a llongyfarchodd Dr Tracy Cruickshank a benodwyd yn olynydd iddo. Yn ogystal llongyfarchodd yr Athro Kyle Erickson a benodwyd yn Bro Is-Ganghellor Cysylltiol y Brifysgol a Simon Young a benodwyd yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Academaidd. Nododd ei gwerthfawrogiad i aelodau'r uwch dîm a oedd wedi gadael y Brifysgol yn ddiweddar. |
| 24.73<br>Adroddiad Undeb y Myfyrwyr | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Undeb y Myfyrwyr (JCO286).<br><br>Amlygodd yr adroddiad feysydd gwaith Undeb y Myfyrwyr a chanolbwyntiodd ar gynrychiolaeth cyrsiau, Mis Hanes Pobl Dduon ac Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2025. Yn ogystal, roedd yr adroddiad wedi cynnwys crynodeb byr o bryderon myfyrwyr am y ddeialog ynglŷn â darparu rhaglenni'r Dyniaethau yn y dyfodol ar gampws Llambed, a gyflwynwyd o dan 24.76 isod. |
| 24.74<br>Adroddiad y Pwyllgor: Bwrdd Coleg Sir Gâr | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |
| 24.75<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad:<br>2 Hydref 2024 | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 24.76<br>Adroddiad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad:<br>13 Tachwedd 2024 | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |
| 24.77<br>Adroddiad rheolaeth ariannol ac arian parod | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |
| 24.78<br>Datganiad Sicrwydd Blynyddol FAP | CYMERADWYODD y Cyngor Ddatganiad Sicrwydd Ansawdd y Cynllun Ffioedd a Mynediad, yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, oedd yn rhan o'r casgliad o ddogfennau i'w cyflwyno i CCAUC yn rhan o'r Cofnod Sicrwydd Blynyddol (JCO291).<br><br>Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol y cyfrifiadau yn y datganiad a grybwyllwyd yn JCO291. |
| 24.79<br>Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad llafar ar y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (JCO292). |
| 24.80<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg<br>9 Hydref 2024 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 9 Hydref 2024 (JCO293a). |
| 24.81<br>Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Risg<br>18 Tachwedd 2024 | EITEM GYFYNGEDIG yw hon ac adroddir arni yng nghofnodion cyfyngedig y cyfarfod. |
| 24.82<br>Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Archwilio a Risg PCYDDS | YSTYRIODD y Cyngor adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg, a oedd yn rhan o gasgliad o ddogfennau i'w cyflwyno i Medr yn rhan o'r Cyflwyniad Sicrhau Blynyddol (JCO294b).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Risg i'w gyflwyno i Medr. |
| 24.83<br>Adroddiad y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu: | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2024 (JCO295). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| 17 Hydref 2024 | DERBYNIODD y Cyngor ddiweddariad ar drefniadau ar gyfer yr Adolygiad Effeithlonrwydd Llywodraethiant, a fyddai'n dechrau yng Ngwanwyn 2025 (JCO297).<br><br>DERBYNIODD y Cynghorau ddiweddariad ar ddatblygu cynllun Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y ddau Gyngor (JCO314).<br><br>DERBYNIODD y Cyngor yr adroddiad blynyddol ar gwynion 2023/24 (JCO315).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor ddiwygiadau arfaethedig i Ordinhadau PC (JCO316).<br><br>CYMERADWYODD y Cyngor fersiwn derfynol cynllun gweithredu Camm a llofnododd y cynllun fel y'i cwblhawyd (JCO317). |
| 24.84<br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad blynyddol Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu 2023/24 (JCO296). |
| 24.85<br>Adroddiadau'r Senedd: 18 Medi 2024 a 20 Tachwedd 2024 | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad cyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 18 Medi 2024 (JCO298) ac adroddiad ar lafar ar gyfarfod y Senedd a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2024. |
| 24.86<br>Adroddiad blynyddol y Senedd | YSTYRIODD y Cyngor Adroddiad Blynyddol y Senedd i'r Cyngor 2023/24 (JCO299). |
| 24.87<br>Cofnodion | CYMERADWYODD y Cyngor gofnodion anghyfyngedig a chyfyngedig cyfarfod Cyngor PCYDDS a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2024 (JCO300c a d). |
| 24.88<br>Cadarnhad blynyddol o lofnodwyr | Cyngor (JCO301):<br><br>(a) CYMERADWYODD y rhestr o lofnodwyr awdurdodedig 2024/25;<br>(b) Cymeradwywyd y broses o greu atwrneiaeth i alluogi'r Prif Swyddog Gweithredu i lofnodi dogfennau cyfreithiol y cwmni ar ran yr Is-Ganghellor<br>(c) Nodwyd gweithredwyr awdurdodedig Sêl PC 2024/25 |
| 24.89 | CYMERADWYODD y Cyngor y Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl 2023/2024 (JCO302). |

| Cofnod | Prif bwyntiau trafod |
|---|---|
| Datganiad Caethwasiaeth Fodern Flynyddol | |
| 24.90 Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Prevent | CYMERADWYODD y Cyngor (JCO303):<br><br>(a) Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Prevent 2023/24 i Medr;<br>(b) (b) Ffurflenni Atebolrwydd Dyletswydd Prevent ar gyfer y ddau sefydliad |
| 24.91 Adroddiad Gweithredu gan y Cadeirydd | DERBYNIODD y Cyngor adroddiad Gweithredu gan y Cadeirydd (JCO304). |
| 24.92 Datgan Buddiannau | Nododd Dr Liz Siberry ei datganiad fel Ymddiriedolwr Gregynog.<br><br>Nid oedd datganiadau o fuddiant ychwanegol. |
| 24.93 Dyddiad y cyfarfod nesaf | Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 23 Ionawr 2025. |

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm